Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Portmead**
**Cheriton Crescent**
**Portmead**
**Abertawe**
**SA5 5LA**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Portmead

Mae Ysgol Gynradd Portmead yn ninas Abertawe. Mae 216 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn cynnwys 44 o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Yn yr ysgol, ceir chwech o ddosbarthiadau un oed, yn cynnwys y dosbarth meithrin, dau ddosbarth oedrannau cymysg a dau gyfleuster addysgu arbenigol yr awdurdod lleol ar gyfer plant ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig.

Cyfartaledd treigl tair blynedd y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yw tua 44%. Mae hyn gryn dipyn uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 18%. Dywed yr ysgol bod anghenion dysgu ychwanegol gan ryw 21% o ddisgyblion. Mae'r ffigur hwn yr un fath â chyfartaledd Cymru. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig, ac nid yw unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Penodwyd y pennaeth yn 2015. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf gan Estyn yn Ionawr 2013

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/Schools/SchoolSearch?lang=cy

## Crynodeb

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n mynychu'r cyfleuster addysgu arbenigol yn gwneud cynnydd da dros gyfnod yn gyson â'u hanghenion a'u galluoedd.  Gwnânt gynnydd cadarn o ran cyflawni'u targedau eu hunain ar gyfer llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Mae bron yr holl ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion yn y cyfleuster addysgu arbenigol, yn ddysgwyr brwd.  Dangosir agwedd gadarnhaol gan y rhan fwyaf o ddisgyblion, ac maent yn awyddus i rannu'u gwaith a'u llwyddiannau gyda'i gilydd, athrawon ac ymwelwyr.  Mae disgwyliadau uchel gan y rhan fwyaf o athrawon, ac mae bron pob disgybl yn ymateb yn dda i'r heriau y maent yn eu gosod.  Un o gryfderau'r ysgol yw'r ethos gofalgar a geir yn yr holl ddosbarthiadau, sy'n meithrin amgylchedd lle mae disgyblion a staff yn trin ei gilydd gyda pharch.

Mae'r pennaeth yn rhannu ei weledigaeth ac ethos gyda chymuned yr ysgol gyfan yn effeithiol.  O ganlyniad, ceir etheg tîm mwyfwy cadarn a gefnogir gan ymdeimlad o falchder a diben a rennir.  Mae'r corff llywodraethol yn cyfarfod yn rheolaidd, maent yn gefnogol ac mae ganddynt lefel addas o ddealltwriaeth o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ag agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella prosesau gwella'r ysgol

A2 Gwella ansawdd adborth ysgrifenedig athrawon i ddisgyblion, a'r defnydd ohono

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi gwella gryn dipyn erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae'r rhan fwyaf yn cyflawni gystal â disgyblion eraill yn yr ysgol, o leiaf.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynychu'r cyfleuster addysgu arbenigol yn gwneud cynnydd da dros gyfnod yn gyson â'u hanghenion a'u galluoedd. Maent yn gwneud cynnydd cadarn o ran cyflawni'u targedau eu hunain ar gyfer llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Trwy gydol y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar oedolion ac yn ymateb yn briodol i gwestiynau. Er bod llawer o'r disgyblion ieuengaf yn dechrau'r ysgol gyda medrau siarad sydd wedi'u datblygu'n wael, erbyn diwedd y cyfnod sylfaen maent yn gwneud cynnydd cadarn ac yn siarad yn fwyfwy hyderus a rhugl. Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau sgyrsiau ac yn siarad yn hyderus am eu profiadau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus a chlir. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn defnyddio ystod eang o eirfa i fynegi'u barnau. Maent yn gwrando'n ofalus ac yn parchu barnau ei gilydd, er enghraifft wrth drafod deilliannau cadarnhaol a negyddol o gamau gweithredu gan gymeriadau yn eu nofelau.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn defnyddio'u gwybodaeth am lythrennau a seiniau i ddarllen a sillafu geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus. Mae llawer ohonynt yn ddarllenwyr brwd. Maent yn darllen yn rhugl gyda mwy a mwy o fynegiant. Mae bron pob un ohonynt yn siarad yn frwdfrydig am gymeriadau mewn llyfrau y maent yn eu mwynhau, ac maent yn defnyddio cliwiau darluniau i'w helpu i wneud rhagfynegiadau synhwyrol ynghylch beth allai ddigwydd nesaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae agweddau cadarnhaol at ddarllen gan y rhan fwyaf o ddisgyblion. Maent yn siarad yn frwd am eu hoff lyfrau, fel The Twits. Maent yn siarad yn wybodus am sut mae trywyddau stori yn datblygu a'r modd y mae'r cymeriadau amrywiol yn eu llyfrau yn rhyngweithio. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trafod testunau gan eu hoff awduron yn fanwl. Maent yn llithrddarllen ac yn sganio llyfrau ffuglen a ffeithiol yn fedrus i gefnogi'u hymchwil ar gyfer gwaith testun, er enghraifft wrth chwilio am ffeithiau am gymeriadau fel 'Kissin Kate Barlow' o'u nofel.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau llawysgrifen yn dda. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn dal eu pensiliau yn gywir ac yn llunio'u llythrennau yn ofalus gyda maint a gofod cyson. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn sicrhau bod eu gwaith wedi'i gyflwyno'n dda. Mae sillafu ac atalnodi yn gywir, ar y cyfan.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol mewn amrywiaeth o arddulliau, fel cofnodi gwybodaeth am fôr-ladron. Defnyddiant atalnodi sylfaenol i drefnu'u gwaith yn frawddegau. Wrth iddynt barhau drwy'r Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd ag ystod addas o dasgau ysgrifenedig.

Mae safon ysgrifennu disgyblion iau yng nghyfnod allweddol 2 yn amrywiol. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n estynedig gan ddefnyddio ystod o genres gwahanol. Dewisant eiriau'n ofalus i wneud eu hysgrifennu'n fwy diddorol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn ysgrifennu'n dda mewn amrywiaeth o genres ac yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu taflen twristiaid i ymwelwyr â Chymru. Maent yn defnyddio medrau llythrennedd a ddysgwyd mewn gwersi iaith yn llwyddiannus mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm, er enghraifft ysgrifennu stori estynedig am eu profiadau o gael eu cipio gan estronwr a'u cludo i blaned bellennig.

Mae medrau llythrennedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol ar draws yr ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae gafael da gan lawer ar ffeithiau rhif sylfaenol, ac maent yn adio ac yn tynnu rhifau dau ddigid yn dda. Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrifo newid o £1 yn gywir, ac maent yn hyderus wrth ddefnyddio sgwariau rhif. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cymhwyso'u medrau mesur a thrin data yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn defnyddio siartiau cyfrif a phictogramau o'r mathau gwahanol o dai yn Portmead. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion hŷn yn defnyddio'u medrau trin data yn llwyddiannus i greu graffiau llinell mwyfwy cymhleth. Maent yn cymhwyso'u medrau yn dda mewn sefyllfaoedd go iawn, er enghraifft wrth gynllunio i werthu cynhyrchion yn y ganolfan arddio leol. Yn gyffredinol, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn trosglwyddo'u medrau rhifedd yn dda i feysydd eraill o'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio ystod eang o gyfrifiadau a medrau rhesymu yn ystod gweithgareddau menter.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu'u medrau TGCh. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymdrin ag offer TGCh yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn rhaglennu robotiaid syml i deithio ar drac ac yn tynnu ffotograffau gan ddefnyddio'u llechi. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus i ddefnyddio rhaglenni cyfrifiadur gwahanol. Er enghraifft, gwneir defnydd effeithiol o gronfeydd data gan y rhan fwyaf o ddisgyblion i gofnodi'n gywir hyd pysgod gwahanol sy'n cael eu dal gan gymeriad mewn llyfr darllen Cymraeg poblogaidd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion iau yn cynhyrchu diagramau canghennau mwyfwy cymhleth i gefnogi'u gwaith mewn testunau penodol. Mae disgyblion hŷn yn adeiladu'n effeithiol ar y medrau y maent wedi'u dysgu'n barod mewn TGCh. Er enghraifft, maent yn cynhyrchu clipiau ffilm diddorol, gan ddefnyddio technoleg sgrin werdd, fel rhan o'u gwaith llythrennedd ar ddyddiaduron fideo o'r gofod.

Trwy gydol yr ysgol, mae bron yr holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd da iawn wrth ddatblygu'u medrau mewn Cymraeg. Yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn dod i gyswllt â llawer o Gymraeg ac yn ymateb yn briodol i ystod dda o gyfarwyddiadau. Er enghraifft, maent yn holi ac ateb cwestiynau syml yn hyderus ar y môr-leidr o Gymru 'Barti Ddu'. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynnal sgwrs fer yn Gymraeg, gan ymestyn eu hatebion yn briodol. Maent yn darllen testunau syml gyda dealltwriaeth, ac yn ysgrifennu paragraffau byr amdanyn nhw'u hunain a ble maent yn byw sy'n cynnwys manylder addas. Mae'r 'Criw

Cymraeg' yn gweithio'n ddiflino i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

**Lles ag agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron yr holl ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion yn y cyfleuster addysgu arbenigol, yn ddysgwyr brwd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol ac yn awyddus i rannu'u gwaith a'u llwyddiannau gyda'i gilydd, athrawon ac ymwelwyr. Maent yn dyfalbarhau â'u tasgau ac yn canolbwyntio'n llwyddiannus am gyfnodau estynedig. Gweithiant yn dda mewn grwpiau a pharau, ac mae llawer yn deall sut i osgoi pethau sy'n tynnu'u sylw er mwyn cwblhau tasgau.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel, yn sicr ac yn hapus yn yr ysgol. Maent yn gwybod ble i droi os oes ganddynt unrhyw bryderon neu ofidiau. Maent yn hyderus bod staff yn gwrando ar eu pryderon ac yn gweithredu arnynt. Mae dealltwriaeth dda gan y rhan fwyaf o ddisgyblion o sut i gadw'n ddiogel ar-lein. Maent yn cymhwyso'r wybodaeth hon yn dda, er enghraifft, wrth greu cyfrineiriau diogel ar y rhyngrwyd.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n iach. Mae bron pawb yn deall yr angen i wneud ymarfer corff a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol rheolaidd, fel y filltir ddyddiol.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn ymddwyn yn gyson dda mewn gwersi ac ar adegau eraill yn ystod y diwrnod. Gwnânt ddefnydd da o'r parth meddwl yn y dosbarth, ac maent yn defnyddio'r strategaethau sy'n eu helpu i gadw'n dawel yn effeithiol pan fyddant yn teimlo wedi'u cynhyrfu neu'n gofidio. Mae bron yr holl ddisgyblion yn symud o amgylch yr ysgol yn synhwyrol. Maent yn foesgar, yn ofalgar ac yn ystyriol tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn cynorthwyo disgyblion yn y cyfleuster addysgu arbenigol yn feddylgar fel rhan o'u hintegreiddio i'r brif ffrwd.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn cymryd eu rolau arwain yn ddifrifol iawn. Maent yn siarad yn frwdfrydig ynglŷn â'u profiadau wrth gefnogi llais y disgybl. Er enghraifft, mae'r 'Criw Cymraeg' yn allweddol o ran sicrhau bod disgyblion yn siarad Cymraeg â'i gilydd yn ystod amserau chwarae. Mae grwpiau eraill, fel y pwyllgor eco a'r pwyllgor menter, yn cefnogi bwytai'n iawn trwy dyfu a gwerthu eu cynnyrch eu hunain.

Ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i ffocws cynaledig ar wella presenoldeb, ac maent yn deall yn llwyr bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae disgwyliadau uchel gan y rhan fwyaf o athrawon, ac mae bron yr holl ddisgyblion yn ymateb yn dda i'r heriau a osodant. Maent yn darparu nodau clir ar gyfer eu gwersi ac yn atgoffa disgyblion o'u dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Mae gan athrawon wybodaeth sicr am y pynciau maent yn eu haddysgu, ac maent yn

defnyddio staff cymorth yn effeithiol. Fel arfer, mae cyflwyniadau staff yn fywiog ac maent yn annog yr holl ddisgyblion i gyflawni’r gorau y gallant. Ceir cydbwysedd da o waith dosbarth cyfan, gwaith grŵp a gwaith unigol yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau.

Yn gyffredinol, mae rhediad da i’r gwersi. Mae staff yn defnyddio technegau holi yn fedrus i helpu disgyblion ddeall cysyniadau newydd a datblygu’u gwybodaeth a’u medrau. Er enghraifft, mae’r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion ar ansawdd eu gwaith. Mae hyn yn eu helpu i werthfawrogi syniadau newydd ac yn galluogi staff i farnu dealltwriaeth disgyblion. Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi amser i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill yn rheolaidd. Fodd bynnag, ceir gormod o amrywio o ddosbarth i ddosbarth yn ansawdd a defnydd adborth ysgrifenedig athrawon i ddisgyblion er mwyn iddynt ddeall sut i wella eu gwaith.

Mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda mewn gwersi ac, o ganlyniad, mae bron yr holl ddisgyblion yn canolbwyntio’n dda ar eu tasgau. Un o gryfderau’r ysgol yw’r ethos gofalgar a geir yn yr holl ddosbarthiadau, sy’n meithrin amgylchedd lle mae disgyblion a staff yn trin ei gilydd gyda pharch.

Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm cyfoethog a chytbwys sy’n bodloni anghenion disgyblion y brif ffrwd a disgyblion yn y cyfleuster addysgu arbenigol yn dda. Yn y ddau faes, mae athrawon yn darparu profiadau dysgu o ansawdd da i ddisgyblion sy’n ennyn diddordebau disgyblion yn dda ac yn datblygu’u medrau a’u chwilfrydedd yn llwyddiannus.

Mae’r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol i’r holl ddisgyblion ddatblygu’u medrau llythrennedd a rhifedd. Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi’u hymgorffori gyda thasgau â ffocws addas a gweithgareddau parhaus, sy’n annog disgyblion i arwain eu dysgu eu hunain. Gosodir lefel briodol o her gan athrawon ar gyfer oedran a gallu disgyblion. Mae athrawon yn dechrau defnyddio’u dealltwriaeth o gwricwlwm newydd Cymru yn bwrpasol. Mae hyn yn gwella’r profiadau dysgu y maent yn eu darparu i ddisgyblion. Er enghraifft, mae staff cyfnod allweddol 2, ar y cyd â’u disgyblion, wedi datblygu tasgau neu heriau diddorol yn seiliedig ar y chwe maes dysgu.

Mae bron yr holl staff yn darparu cyfleoedd da iawn i hyrwyddo’r Gymraeg fel rhan naturiol o holl waith yr ysgol. Maent yn fodelau rôl effeithiol i ddisgyblion o ran eu defnydd o’r iaith. O ganlyniad, mae hyder disgyblion wrth siarad â’i gilydd ar draws yr ysgol yn gwella.

Mae staff yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael profiadau cyfoethog a difyr i ddatblygu’u dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru. Er enghraifft, dathlu popeth Cymreig mewn sesiwn weithgareddau wythnos, sy’n cynnwys Eisteddfod, seremoni gadeirio a chystadlaethau diwylliannol. Mae ymweliadau â’r Bathdy Brenhinol, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ac ymweliadau preswyl â Phentywyn yn cyfoethogi ac yn gwella’u profiadau yn llwyddiannus.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, cefnogol a chynhwysol, sy'n hyrwyddo lles yr holl ddisgyblion yn weithredol. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac yn creu ethos anogol sy'n helpu meithrin hyder a hunan-barch disgyblion.

Ceir systemau cynhwysfawr ar waith i asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Gwneir defnydd effeithiol o ddata asesu gan staff i nodi disgyblion y gall fod angen cymorth neu her ychwanegol arnynt yn eu gwaith. Mae staff yn cyflwyno ystod addas o raglenni ymyrryd. Mae'r rhaglenni hyn yn effeithiol iawn o ran sicrhau bod disgyblion llai abl yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau llythrennedd, rhifedd a'u targedau emosiynol. Mae'r cydlynydd anghenion ychwanegol yn cynorthwyo athrawon a staff cymorth yn dda. Mae cynllun dysgu priodol gan yr holl ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n nodi targedau addas ac yn dynodi camau hylaw tuag at gyflawni'r rhain.

Mae athrawon yn darparu rhaglen les lwyddiannus sy'n helpu llawer o ddisgyblion i wella eu hyder ac i gyflawni llwyddiant yn eu dysgu. Maent yn darparu strategaethau buddiol i gynorthwyo datblygiad emosiynol disgyblion yn yr ystafell ddosbarth.

Mae ystod o weithdrefnau effeithiol yn cynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd presenoldeb da. Mae cyflwyno swyddog lles teulu yn ddiweddar wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb disgyblion. Mae ei chymorth trwy fentrau fel trefnu dosbarthiadau ymgysylltiad teuluol wedi gwella gwybodaeth a dealltwriaeth rhieni o strategaethau ymddygiad cadarnhaol.

Ceir trefniadau effeithiol yn yr ysgol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae sesiynau addysg gorfforol rheolaidd, ac ystod o glybiau chwaraeon allgyrsiol, yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fwynhau manteision ffordd iach o fyw.

Mae'r ysgol yn meithrin perthnasoedd gweithio da gydag asiantaethau allanol ac yn gofyn am gyngor pan fydd yn briodol. Mae ymweliadau rheolaidd gan swyddog cyswllt yr heddlu yn cynyddu ymwybyddiaeth disgyblion o beryglon defnyddio'r rhyngrwyd, ysmygu, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol yn effeithiol. Mae hyn yn helpu disgyblion i wneud dewisiadau da yn eu bywydau bob dydd.

Mae athrawon yn cynllunio ar gyfer addysg bersonol, gymdeithasol a chrefyddol yn dda. Mae'r gweithgareddau hyn yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth a'r byd ehangach yn effeithiol. Caiff disgyblion gyfleoedd buddiol i ddatblygu'u dealltwriaeth o faterion ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol trwy weithgareddau yn yr ystafell ddosbarth ac addoli ar y cyd.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu'u medrau creadigol. Fe wnaeth gweithgareddau gydag artistiaid lleol gynyddu ymwybyddiaeth disgyblion o'r celfyddydau. Maent wedi cynhyrchu lluniau a phaentiadau lliwgar yn arddull yr artist o Gymru, Harri Jepson.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol mewn ystod eang o grwpiau cynrychioliadol. Mae'r ystod helaeth o weithgareddau yn datblygu medrau arwain disgyblion yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach, er enghraifft trefnu casglu dillad i'r rhai llai ffodus mewn rhannau eraill o'r byd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn rhannu ei weledigaeth a'i ethos gyda'r gymuned ysgol gyfan yn effeithiol. O ganlyniad, ceir lefel uchel o gynhwysiant ac ethos gofalgar sy'n treiddio i bob agwedd ar fywyd ysgol. Mae hyn yn arwain at ymdeimlad cynyddol o rymuso ymhlith yr holl staff. O ganlyniad, ceir etheg tîm mwyfwy cadarn a gefnogir gan ymdeimlad o falchder a diben a rennir.

Mae'r dirprwy bennaeth yn cefnogi'r pennaeth yn effeithiol. Gyda'i gilydd, maent yn adeiladu ar allu aelodau staff eraill i arwain trwy raglen bwrpasol o ddatblygiad proffesiynol. Mae cyfarfodydd yr uwch dîm rheoli a chyfarfodydd staff yn galluogi'r holl staff, gan gynnwys cynorthwywyr addysgu, i gyfrannu at gyfeiriad strategol yr ysgol.

Mae disgrifiadau swydd clir gan yr holl staff ac maent yn deall sut maent yn cyfrannu at wella ansawdd addysgu a dysgu ar draws yr ysgol. Maent yn deall ac yn cyflawni'u rolau a'u cyfrifoldebau yn hyderus. Hefyd, mae rolau arwain penodol gan yr holl staff addysgu sy'n cyfateb yn fanwl i'w meysydd arbenigedd. Maent yn dechrau cyfrannu'n briodol at brosesau gwerthuso a gwella'r ysgol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cyfarfod yn rheolaidd, maent yn gefnogol ac mae ganddynt lefel addas ddealltwriaeth o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Cânt wybodaeth ddefnyddiol am agweddau ar arweinyddiaeth, darpariaeth a safonau disgyblion. Maent wedi dechrau cynnal ymweliadau â ffocws i werthuso agweddau ar waith yr ysgol. Fodd bynnag, megis dechrau cael ei ddatblygu y mae'r gwaith hwn a'i gyfraniad cyffredinol at waith gwella'r ysgol.

Mae arweinwyr yn ymgymryd â chylch rheolaidd o weithgareddau monitro, gan gynnwys arsylwi ansawdd addysgu a dysgu, craffu ar lyfrau disgyblion a gwrando ar ddysgwyr. Mae'r prosesau hyn yn rhoi trosolwg defnyddiol i arweinwyr o gryfderau'r ysgol ac maent yn llywio blaenoriaethau ar gyfer gwella yn briodol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn mynd i'r afael â gwaith gwella mewn modd strategol. Nid ydynt yn sefydlu camau penodol neu gamau y gellir eu mesur ar gyfer gwella yn ddigon da. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i weithredu newid ac yn ei gwneud hi'n anodd i arweinwyr nodi'r gwahaniaeth y mae gwaith gwella'n ei wneud i gynnydd disgyblion.

Mae targedau rheoli perfformiad yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau gwella'r ysgol gyfan. Cefnogir y broses hon gan gyfleoedd hyfforddi gwerthfawr. Er enghraifft, mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn ymweld ag ysgol leol yn rheolaidd i rannu arbenigedd. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu yn yr ysgol ac mae'n hyrwyddo gweithgareddau dysgu proffesiynol gwerthfawr eraill.

Cynigir cyfleoedd defnyddiol i staff wella'u medrau a'u gwybodaeth broffesiynol trwy gynllunio gyda'i gilydd. Caiff athrawon a chynorthwywyr eu hannog i ymgymryd â gweithgareddau ymchwil sy'n cefnogi strategaethau i gynllunio, mireinio a gwella gwersi fel rhan o dîm bach. Mae'r gweithgareddau ymchwil a hyfforddi diweddar yr ymgymerwyd â nhw yn cael effaith gadarnhaol ar addysgu medrau iaith Gymraeg.

Mae’r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae gwaith paratoi ar gyfer rhoi’r fframwaith llythrennedd ar waith yn y cwricwlwm newydd yn cefnogi annibyniaeth disgyblion ac yn datblygu’u medrau o fewn gwaith testun.

Mae arweinwyr, gan gynnwys llywodraethwyr, yn rheoli a monitro cyllideb yr ysgol yn briodol. Gwnânt benderfyniadau priodol ynglŷn â gwariant, er mwyn cyflawni deilliannau da ar gyfer disgyblion. Mae cynlluniau ar waith erbyn hyn i’r ysgol ddefnyddio’i chronfeydd ariannol sylweddol yn gynhyrchiol. Mae grantiau cyllid ychwanegol, fel y grant datblygu disgyblion, yn cynorthwyo dysgwyr sy’n agored i niwed yn dda. Caiff ymyriadau arbenigol strwythuredig effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad a lles y disgyblion hyn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa farnau pedwar pwynt, sef:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwella** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant brys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/08/2019